

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Abertawe

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Abertawe i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

### 1 Crynodeb gweithredol

Roedd Abertawe wedi cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac wedi methu â chyflawni 1.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Abertawe wedi cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 2.

Mae gwasanaeth llyfrgell Abertawe yn parhau i berfformio'n dda mewn sawl maes, er bod peth tystiolaeth o ddirywiad yn y defnydd ar y gwasanaeth. Nodir gwelliannau mewn monitro ac adrodd, gan sicrhau bod y data'n gadarn ac yn rhoi sail gadarn ar gyfer cynllunio i'r dyfodol. Er nad yw'r targedau wedi'u cyrraedd eto, mae'r gwasanaeth hefyd wedi ymrwymo i gynyddu ei fuddsoddiad mewn adnoddau iaith Gymraeg, ac i hyrwyddo eu defnydd. Fodd bynnag, mae lefelau staffio, ac yn arbennig staff proffesiynol, yn destun pryder. Dylai'r adolygiad arfaethedig ar hyfywedd y gwasanaeth, gan gynnwys staffio, fod yn sail i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer cynaladwyedd y gwasanaeth yn y dyfodol.

- Mae'r holl fannau gwasanaeth yn darparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac ar gyfer iechyd a lles. Mae pedair astudiaeth achos yn dangos effaith y gwasanaeth ar grwpiau ac unigolion.
- Yn sgil gwell monitro ac adrodd mae'r gwasanaeth wedi gallu cyflwyno ffigyrau sy'n gadarnach ar gyfer hyfforddiant anffurfiol, nifer mynychwyr digwyddiadau / gweithgareddau llyfrgell, a defnyddio'r wefan.
- Mae'r defnydd yn gyffredinol yn parhau i fod yn uwch na chanolrif Cymru, er bod gostyngiadau yn nifer yr ymweliadau corfforol, benthycwyr gweithredol a chyfanswm benthyciadau llyfrau.
- Nid yw targedau ar gyfer derbyniadau cyffredinol a deunyddiau yn Gymraeg yn dal i gael eu cyrraedd, er bod y gwasanaeth yn cynyddu ei fuddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg, gyda mwy o bwyslais ar annog eu defnyddio.
- Mae nifer y staff cyffredinol a lefel y staff proffesiynol ill dau wedi gostwng, ac nid yw'r un o'r ddau darged wedi'i gyrraedd. Mae nifer y staff proffesiynol bellach yn agos at yr isaf yng Nghymru, ac mae'r gwasanaeth yn dibynnu fwyfwy ar staff asiantaeth i gynnal y gwasanaeth. Bydd yr adolygiad arfaethedig o gynlluniau gwaith / anghenion staffio yn allweddol i sicrhau cynaladwyedd y gwasanaeth yn y maes hwn.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ers 2016-17, gyda'r buddsoddiad cyfartalog yn y gwasanaeth llyfrgell fesul pen y boblogaeth ar lefel y canolrif.

### 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2

yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

## 2.1 Hawliau craidd

Mae Abertawe yn cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ond gan nad oes strategaeth llyfrgell gyffredinol sy'n mynegi gweledigaeth ac amcanion y gwasanaeth mae'n methu â chyflawni hawl graidd 12. Nodir bod darparu'r gwasanaeth llyfrgell yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau a strategaethau corfforaethol sydd wedi'u cyhoeddi, ond nid oes cysylltiad uniongyrchol â dogfennau perthnasol ar wefan y gwasanaeth llyfrgell i hysbysu defnyddwyr am gyfeiriad strategol y gwasanaeth, a dim ond ychydig o fanylion a geir yn y dogfennau corfforaethol i nodi rôl a chyfraniad y gwasanaeth. Dylai'r adolygiad arfaethedig ar gynaliadwyedd y gwasanaeth, gan gynnwys staffio, fod yn sail i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol.

## 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Abertawe yn cyflawni 7 yn llawn, un yn rhannol ac yn methu â chyflawni 2 o'r dangosyddion.

Dangosydd ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad manau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	x	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	x	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn

Dangosydd ansawdd	Cyflawni?	
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	x	
iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Cafwyd newid bychan ers blwyddyn olaf y pumed fframwaith, gyda'r targed ar gyfer cyfran o amser y staff sy'n cael ei dreulio ar ddatblygiad proffesiynol / personol nawr yn cael ei gyrraedd.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Mae Abertawe yn bwriadu cynnal ei arolygon defnyddwyr ym mis Tachwedd 2018.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	<i>amherthnasol</i>		73%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	<i>amherthnasol</i>		38%	90%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	99%	2/17	75%	98%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Abertawe bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Books n' Hooks - grŵp crosio a gwau sy'n cwrdd bob wythnos mewn llyfrgell leol; mae aelodau'n rhannu eu sgiliau a'u gwybodaeth, yn cael cyfeillgarwch a chefnogaeth, yn ogystal â dechrau codi arian ar gyfer elusennau lleol.
- Sêr Darllen / Reading Stars – cynllun llythrennedd sy'n annog 'darllenwyr anfoddog' oedran cynradd i fwynhau llyfrau; cyflwynwyd y plant i ystod o lyfrau ffuglen, ffeithiol a barddoniaeth, gan lenwi llyfr cofnodi tasgau ac adolygiadau llyfrau, a chwrdd â chŵn darllen y llyfrgell. Roeddent wedi mwynhau'r prosiect, a chyflawnwyd yr amcanion i ennyn eu diddordeb mewn darllen.

- Llythrennedd Digidol – cefnogi cwpl oedrannus i ddysgu sut i siopa ar-lein er mwyn iddynt fedru archebu nwyddau a bwyd i'w cludo i'w cartref; roedd staff y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu sut i ddefnyddio'u llechen a meithrin hyder wrth archebu ar-lein, gan eu cael i ymuno â chwrs chwe wythnos ar declynnau llechen er mwyn iddynt allu parhau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau.
- Cyfnewid Sgiliau – roedd grŵp o fyfyrwyr nyrsio iechyd meddwl wedi trefnu sesiwn cyfnewid sgiliau gyda'r grŵp gwau sy'n cwrdd yn y llyfrgell, a'r myfyrwyr wedi dysgu sgiliau digidol sylfaenol i'r grŵp gwau a hwythau eu hunain wedi dysgu hanfodion gwau a chrosio. Dyma ddwy gymuned wahanol yn cydweithio, yn dysgu pethau newydd ac yn mwynhau eu hunain.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Abertawe ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
DA 1 Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd:	<i>amherthnasol</i>		24%	83%	94%	65%
c) iechyd a lles	<i>amherthnasol</i>		33%	65%	95%	54%
d) lle diogel a chroesawgar	<i>amherthnasol</i>		90%	98%	100%	97%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	<i>amherthnasol</i>		88%	91%	98%	91%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		93%	99%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		74%	86%	94%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	<i>amherthnasol</i>		93%	97%	99%	99%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	<i>amherthnasol</i>		8.5	9.1	9.2	9.0
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr fesul pen	25	14/22	10	32	238	28
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	215	11/22	15	199	473	<i>amherthnasol</i>
DA 6 mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth	398	5/22	82	228	684	80
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	4,342	5/22	2,501	4,047	7,014	4,604
b) rhith-ymweliadau fesul pen	1,047	8/22	243	866	2,211	341
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	196	5/22	100	154	229	211
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen *	51	14/22	4	68	663	
DA 11 Mynediad ar-lein						

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
b) cyfrifiaduron fesul pen <sup>^</sup>	8	16/22	5	9	14	7
c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	33%	8/22	14%	27%	67%	37%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	36	10/21	3	31	196	24
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	1,802	9/21	40	1,346	11,939	1,603
DA 14 Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£11,915	11/21	£7,047	£11,915	£17,771	£11,589
b) % ar staff	73%	4/21	44%	63%	75%	75%
% ar adnoddau gwybodaeth	14%	9/21	4%	13%	25%	12%
% ar offer ac adeiladau	3%	18/21	0%	4%	20%	3%
% ar gostau gweithredol eraill;	10%	17/21	0%	18%	37%	9%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£534	8/20	£0	£338	£17,432	£78
DA 15 Cost net am bob ymweliad	£1.80	12/21	£1.24	£1.82	£2.41	£2.19
DA 16 Oriau agor <sup>#</sup>						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	1/21	0.00%	0.02%	1.28%	0.00%
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	<i>amherthnasol</i>		0.00%	0.35%	11.24%	<i>amherthnasol</i>

\* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

<sup>^</sup> am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

<sup>#</sup> Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

### 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

#### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw Abertawe wedi cynnal ei arolygon defnyddwyr eto; nodir bod y rhain ar y gweill ar gyfer mis Tachwedd 2018. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn darparu'r ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol a chefnogaeth dda ar gyfer iechyd a lles, gyda'r targedau yn hyn o beth ill dau wedi'u cyflawni. Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi defnyddwyr a drefnwyd ymlaen llaw wedi gostwng ychydig ers 2016-17, gyda 99% o'r rhai a holwyd yn dweud bod mynychu wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion. Mae gwelliannau i'r monitro ar yr hyfforddiant anffurfiol a roddir gan staff wedi galluogi'r gwasanaeth i gyflwyno data ar gyfer y dangosydd hwn yn 2017-18, gyda'r perfformiad a gofnodwyd yn uwch na lefel y canolrif.

#### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Abertawe yn dal i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, ac mae'n cynnig digwyddiadau / gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob llyfrgell sefydlog. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau llyfrgell hefyd wedi codi'n sylweddol yn 2017-18 gyda'r perfformiad bellach y pumed uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth; nodir bod hyn yn adlewyrchu systemau cofnodi gwell, gan gadarnhau bod y ffigyrau yn y blynyddoedd blaenorol wedi'u tan-adrodd. Er bod ffigyrau defnydd fel arall ar y cyfan yn uwch na'r canolrif ar gyfer

Cymru, mae peth tystiolaeth o ddirywiad, gyda gostyngiadau yn nifer yr ymweliadau corfforol, benthycwyr gweithredol, a benthyciadau llyfrau cyffredinol. Mae aelodaeth y llyfrgell wedi cynyddu, ac mae cynnydd sylweddol yn nifer yr ymweliadau a gofnodwyd i wefan y gwasanaeth, er y nodir bod hyn yn adlewyrchu newid yn y fethodoleg a ddefnyddir, gan sicrhau mwy o gysondeb ag awdurdodau eraill.

### **3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)**

Bu cynnydd amlwg yn y gwariant ar ddeunyddiau yn 2017-18, gan adlewyrchu rheolaeth well ar gyllideb y deunyddiau, er bod Abertawe yn parhau i fod yn un o 13 awdurdod nad ydynt yn cyrraedd yr un o'r ddau darged yn ymwneud â derbyniadau. Mae'r gwasanaeth wedi cynyddu ei fuddsoddiad mewn deunyddiau ac adnoddau Cymraeg, er bod y targedau yn hyn o beth yn dal heb eu cyflawni. Nodir bod y gwasanaeth yn bwriadu parhau i wella ar y gwariant yn y dyfodol, ac mae pwyslais i'w groesawu ar annog mwy o ddefnydd ar y casgliadau Cymraeg. Mae perfformiad mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau hefyd wedi gwella, gyda'r ddau darged wedi'u cyflawni. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi cynyddu, ac yn cynnwys pob dyfais y gellir mynd ar y rhyngwyd arnynt sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio. Fodd bynnag, mae'r defnydd ar TGCh wedi gostwng, yn debyg i'r rhan fwyaf o wasanaethau llyfrgell eraill, gyda mwy o gwsmeriaid yn defnyddio'u dyfeisiau eu hunain a'r cyfleusterau Wi-Fi a ddarperir.

### **3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)**

Yn debyg i nifer o wasanaethau eraill yng Nghymru, nid yw Abertawe yn cyflawni'r un o'r ddau darged sy'n ymwneud â staffio fesul pen y boblogaeth. Mae lefelau staff cyffredinol wedi gostwng ychydig, gan fod pwysau ariannol wedi cwtogi ar recriwtio, er eu bod, o gymharu, yn dal i fod y trydydd uchaf yng Nghymru. Nodir bod darparu gwasanaethau yn ddibynnol iawn ar staff asiantaeth a gweithio goramser o ganlyniad, er bod cynllun newydd Staff Wrth Gefn wedi bod yn fuddiol. Mae nifer y staff proffesiynol hefyd wedi gostwng gyda'r cyfartaledd fesul pen y boblogaeth yn hyn o beth nawr yn agos at yr isaf yng Nghymru, er bod y gwasanaeth yn pwysleisio ei gefnogaeth barhaus i staff ennill cymwysterau. Mae Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgell newydd wrthi'n cael ei recriwtio a bydd ei rôl yn cynnwys adolygu cynlluniau gwaith / staffio'r gwasanaeth, a disgwylir rhywfaint o drawsnewid wrth i'r gwasanaeth ystyried ei anghenion cynaliadwyedd yn y maes hwn. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth wedi gwella ei berfformiad o ran hyfforddiant / datblygiad staff, ac felly mae'r gofynion bellach wedi'u cyflawni. Mae nifer y gwirfoddolwyr wedi codi, gydag oddeutu 36 o unigolion pob un yn cyfrannu cyfartaledd o 50 awr i'r gwasanaeth.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ers 2016-17, gyda'r buddsoddiad cyfartalog yn y gwasanaeth llyfrgell fesul pen y boblogaeth ar lefel y canolrif. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi'u cadw ac yn parhau i gyrraedd y targed a osodwyd.

## **4 Cyd-destun strategol**

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae naratif Abertawe yn nodi sut mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at y themâu trawsbynciol a nodir yn Symud Cymru Ymlaen: Ffyniannus a diogel, drwy gefnogi pobl i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill cyflogaeth; lach ac egniol, drwy gefnogi iechyd a

lles; Uchelgais a dysgu, drwy wella llythrennedd a sgiliau digidol; ac Unedig a chysylltiedig, drwy wella'r gefnogaeth i'r Gymraeg ac i gynhwysiant digidol.

## **5 Cyfeiriad i'r dyfodol**

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, mae Abertawe yn sôn am recriwtio Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgell newydd, a bydd cylch gorchwyl y rôl hon yn cynnwys edrych ar gynladwyedd y gwasanaeth yn yr hirdymor. Nodir bod y cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal ei ganolfannau llyfrgell a'r llyfrgelloedd cymunedol ardal, a bod y gwasanaeth yn parhau i gydweithio ag adrannau eraill ac â chymunedau lleol. Mae gwasanaethau llythrennedd digidol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, a bydd un o'r llyfrgelloedd cymunedol yn beilot i brosiect Canolfan Gymunedol newydd. Nodwyd cyllideb hefyd i adnewyddu caledwedd a meddalwedd TG, a bydd y gwasanaeth yn ymuno â'r system rheoli llyfrgell (LMS) Cymru gyfan yn 2018-19.

## **6 Casgliad**

Mae gwasanaeth llyfrgell Abertawe yn parhau i berfformio'n dda mewn sawl maes, er bod peth tystiolaeth o ddirywiad yn y defnydd ar y gwasanaeth. Nodir gwelliannau mewn monitro ac adrodd, gan sicrhau bod y data'n gadarn ac yn rhoi sail gadarn ar gyfer cynllunio i'r dyfodol. Er nad yw'r targedau wedi'u cyrraedd eto, mae'r gwasanaeth hefyd wedi ymrwymo i gynyddu ei fuddsoddiad mewn adnoddau iaith Gymraeg, ac i hyrwyddo eu defnydd. Fodd bynnag, mae lefelau staffio, ac yn arbennig staff proffesiynol, yn destun pryder. Dylai'r adolygiad arfaethedig ar hyfywedd y gwasanaeth, gan gynnwys staffio, fod yn sail i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer cynladwyedd y gwasanaeth yn y dyfodol